

Ordinhad 6

Y Cyngor: Cadeirydd y Cyngor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor

Y Corff Cymeradwyo: y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 20 Ebrill 2021

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiedig

Fersiwn: 3.1

Dyddiad adolygu diwethaf: Chwefror 2021

Dyddiad adolygu nesaf: Gorffennaf 2023

ORDINHAD 6

Y CYNGOR: CADEIRYDD Y CYNGOR A DIRPRWY GADEIRYDD Y CYNGOR

1. Penodi Cadeirydd y Cyngor

1. Bydd y Cyngor yn penodi Cadeirydd y Cyngor drwy weithredu yn unol â'r mwyafrif o holl aelodau'r Cyngor, a'r aelodau annibynnol fydd y mwyafrif o'r aelodau hynny.
2. Os bydd swydd Cadeirydd y Cyngor yn wag, bydd y Cyngor yn penderfynu'r drefn i'w dilyn i lenwi'r swyddogaeth honno, sef:
 1. cyfarwyddo'r Pwyllgor Enwebiadau – i'w gadeirio gan Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor yn lle Cadeirydd y Cyngor sy'n dod i ddiwedd ei dymor – i gynnal proses recriwtio allanol addas i ddod o hyd naill ai:
 - a. i aelod annibynnol newydd i'w benodi i'r Cyngor, ar yr amod y byddai'r unigolyn dan sylw yn cael ei ethol neu ei hethol yn Gadeirydd y Cyngor; neu
 - b. i unigolyn sydd eisoes yn gwasanaethu ar y Cyngor fel aelod annibynnol ac sydd yn dymuno gwasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor; neu
 2. cynnull Pwyllgor Dewis i gynnal proses recriwtio allanol addas i benodi Canghellor os yw'r swyddogaeth honno'n wag neu os bydd yn dod yn wag cyn hir, ar yr amod y byddai'r unigolyn dan sylw hefyd yn cael ei ethol neu ei hethol yn Gadeirydd y Cyngor; neu
3. Beth bynnag bo'r broses a ddewisir gan y Cyngor, bydd y Pwyllgor Enwebiadau neu'r Pwyllgor Dewis yn sicrhau mewnbwn allanol addas wrth ystyried ceisiadau i'w penodi'n Gadeirydd y Cyngor. Bydd disgwyl i fewnbwn allanol o'r fath fod yn annibynnol o'r Brifysgol a'r Cyngor.

2. Ethol Dirprwy Gadeirydd y Cyngor

Os bydd swydd Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn wag, bydd y Cyngor yn gwahodd enwebiadau gyda'r bwriad o ethol unigolyn sydd eisoes yn gwasanaethu fel aelod annibynnol ar y Cyngor.

3. Tymor y Swydd

1. Cadeirydd y Cyngor

1. Tymor swydd Cadeirydd y Cyngor fydd pedair blynedd. Gellir eu hystyried ar gyfer ailbenodiad am gyfnod pellach o hyd at bedair blynedd. Bydd unrhyw ailbenodiad gan y Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad priodol gan y Pwyllgor Enwebiadau, gan ddefnyddio canlyniadau arfarniadau blynyddol y Cadeirydd yn ystod eu tymor cyntaf yn y swydd.
2. Os oedd yr unigolyn eisoes yn gwasanaethu fel aelod annibynnol o'r Cyngor, bydd darpariaethau Ordinhad 08 ynghylch hyd tymor gwasanaeth aelodau annibynnol yn berthnasol.

2. Dirprwy Gadeirydd y Cyngor

Ni fydd tymor swydd y Dirprwy Gadeirydd yn estyn y tu hwnt i ddyddiad terfyn y penodiad gwreiddiol i'r Cyngor. Bydd unrhyw ailbenodiad yr un fath ag ar gyfer yr aelodau annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Cyngor, fel y nodir yn Ordinhad 09.

4. Swyddogaethau Cadeirydd y Cyngor

Bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflawni'r swyddogaethau hynny a bennir gan y Cyngor, a fydd yn cynnwys:

1. Arwain y Cyngor a chadeirio cyfarfodydd y Cyngor;
2. Bod yn Gadeirydd *ex-officio* ar bwyllgorau dewis i benodi'r Canghellor, y Dirprwy Gangellorion a'r Is-Ganghellor;
3. Cyflwyno anerchiad blynyddol i'r Llys;
4. Penodi cynrychiolwyr y Cyngor i baneli penodi, disgyblu a thriwlynlys;
5. Bod yn rheolwr llinell ar yr Is-Ganghellor ar ran y Cyngor, gan ymdrin â materion adnoddau dynol sy'n berthnasol i'r unigolyn hwnnw; ac
6. Ymgymryd â gweithgareddau ar ran y Brifysgol a mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion a chyrrff eraill o'r fath.

5. Swyddogaethau Dirprwy Gadeirydd y Cyngor

Bydd Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn cyflawni'r swyddogaethau hynny a bennir gan y Cyngor, a fydd yn cynnwys:

1. ymgymryd ag unrhyw swyddogaethau a ddirprwyir gan Gadeirydd y Cyngor;
2. bod yn Gadeirydd *ex-officio* ar y Pwyllgor Taliadau; a
3. bod yn *Uwch Aelod Annibynnol*¹ y Cyngor.

6. Ymddiswyddo a symud o'r swydd

1. Gall Cadeirydd y Cyngor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor ymddiswyddo drwy roi rhybudd ysgrifenedig i Glerc y Cyngor.
2. Os digwydd ymddiswyddiad o'r fath, gall yr unigolyn dan sylw barhau fel Canghellor os ydynt eisoes yn gwasanaethu yn y swyddogaeth honno. Serch hynny, mewn achosion o'r fath, ni fydd tymor newydd yn dechrau i'r swydd honno.
3. Os bydd mwyafrif o blith y Canghellor, y Dirprwy Gangellorion a'r Is-Ganghellor yn tystio eu bod o'r farn bod Cadeirydd y Cyngor neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor:
 1. wedi bod yn analluog i raddau helaeth i gyflawni'r swydd yn y 12 mis blaenorol; neu

¹ Swyddogaeth sy'n cynnwys bod yn glust barod i Gadeirydd y Cyngor i wirio synnwyr effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, a gwasanaethu fel canolwr i aelodau eraill y Cyngor lle bo angen.

2. wedi methu â chyflawni ei swydd, eu wedi'i hesgeuluso, i raddau helaeth; neu
3. wedi ymddwyn mewn modd nad yw'n addas i Gadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor

yna, ar ôl rhoi cyfle i'r unigolyn dan sylw i gyflwyno ei achos, gellir gwneud argymhelliad i'r Cyngor i ddiswyddo Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor. Diswyddir Cadeirydd neu Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor os bydd cynnig i wneud hynny yn cael ei basio gan fwyafrif o holl aelodau'r Cyngor.